| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Cyngor |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 13 Hydref 2020 |
| **Aelod Arweiniol** | Cynghorydd Richard Mainon, Aelod Arweiniol dros Wasanaethau Corfforaethol a Chyfeiriad Strategol |
| **Awdur yr Adroddiad** | Steve Price, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd<br>Kath Jones, Gweinyddwr Pwyllgorau |
| **Teitl** | Amserlen Bwyllgorau 2021 |

# 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys amserlen bwyllgorau ddrafft ar gyfer 2021.

# 2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

2.1. Mae'n ofynnol i'r Cyngor gymeradwyo amserlen ar gyfer 2021 er mwyn gallu cadarnhau mannau cyfarfod ac adnoddau, cyhoeddi'r amserlen a llenwi dyddiaduron yr Aelodau.

# 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r amserlen bwyllgorau ar gyfer 2021, yn unol ag atodiad 1.

# 4. Manylion yr Adroddiad

4.1. Fel arfer byddai'r amserlen ar gyfer y flwyddyn ganlynol wedi cael ei chymeradwyo'n gynt er mwyn cadw at amserlen 18 mis. Oedwyd hyn oherwydd pandemig coronafeirws COVID-19 a arweiniodd at ohirio cyfarfodydd y Cyngor.

4.2. Mae'r amserlen ddrafft ar gyfer 2021 yn amgaeedig fel atodiad 1 ac mae hefyd yn cynnwys eglurhad fesul pwyllgor o'r ffactorau sydd y tu ôl i nodi dyddiadau addas ar gyfer pob cyfarfod.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Mae cymeradwyo amserlen bwyllgorau yn ganolog i weithrediad y systemau democrataidd a phwyllgora sy'n elfennau hanfodol o drefniadau llywodraethu'r Cyngor ac sy'n cyfrannu at flaenoriaethau corfforaethol y Cyngor.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Mae costau cynnal system pwyllgorau yn cael eu cynnwys o fewn y cyllidebau presennol ond fe wnaeth y Cyngor ymrwymiad yn 2015, drwy ei broses Rhyddid a Hyblygrwydd, i leihau nifer y cyfarfodydd pwyllgor a oedd yn cael eu cynnal ar y pryd i arbed costau cysylltiedig. Gall gwasanaethau ar draws y Cyngor gyfrannu at y cyfarfodydd a gynhwysir yn yr amserlen, fel arfer trwy gyfrannu gwybodaeth, adroddiadau ac amser swyddogion.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen Asesiad o'r Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad hwn.

7.2. Mae'r amserlen flynyddol o gyfarfodydd yn broses sefydledig ac yn cyflawni nodau'r ddeddfwriaeth les a chydraddoldeb. Y prif 'ddefnyddwyr gwasanaeth' yw aelodau'r pwyllgorau a'r swyddogion ategol, er bod y wasg a'r cyhoedd hefyd yn gallu mynychu'r mwyafrif o gyfarfodydd, neu'n gallu gwylio cyfarfodydd gwe-ddarlledu ar-lein. Mae lefel y diddordeb neu'r ymgysylltiad ag unigolion neu grwpiau'n debygol o ddibynnu i raddau helaeth ar y pwnc o dan ystyriaeth.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Ymgynghorir â'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ynglŷn â materion a godwyd yn yr adroddiad hwn a bydd unrhyw argymhellion yn cael eu hadrodd wrth y Cyngor. Ymgynghorwyd â'r swyddogion sy'n cefnogi gwaith y gwahanol bwyllgorau ynghylch yr amserlen bwyllgorau, i nodi dyddiadau posibl ar gyfer cyfarfodydd.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn deillio o'r argymhellion yn yr adroddiad hwn.

## 10. Pa risgiau sydd yna ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i’w lleihau?

10.1 Byddai methu â chadarnhau’r amserlen yn cael effaith andwyol ar drefniadau llywodraethu’r Cyngor.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1 Atodiad 12 Deddf Llywodraeth Leol 1972